

Y Carneddau



Safle: Y Carneddau (Yr Elen, Carnedd Llewelyn, Foel Grach a Charnedd Gwenllian)

Dyddiad yr arolwg: 13/06/2021

Llwybrau trawslun: taith gron ar y prif lwybr troed o Fethesda




Y gwyfyn bach mynyddig prin Northern Grass-veneer (*Catoptria furcatellus*), a welir yma ar Yr Elen.

1. Manylion yr arolwg

Dilynodd arolwg 2021 yr un llwybr ag a ddefnyddiwyd yn yr arolwg safle yn 2020 (gweler y map yn ffigur 1 isod), gydag ychydig o newid ar hyd crib y copa ar ôl i arolwg 2020 gael ei dorri'n fyr oherwydd storm daranau. Roedd y llwybr yn cynnwys un trawslun yn cychwyn o Fethesda, ar hyd Afon Llafar ac yn esgyn dros Foel Ganol a'r Elen i gopa Carnedd Llewelyn, cyn cymryd y prif lwybr crib i Foel Grach a Charnedd Gwenllian (na chafodd sylw yn 2020), ac yna'n disgyn i'r dyffryn ar hyd Afon Wen a chyfuchlinio ar hyd ochr y mynydd uwchben Afon Caseg yn ôl i Fethesda. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar 13 Mehefin 2021.

Yn ystod yr arolwg hwn, cofnododd yr arsylwr y bywyd adar a welwyd yn ystod y daith trawslun (yn enwedig arwyddion o weithgaredd bridio), gweithgaredd mamaliaid, faint o sbwriel a welwyd ar hyd y llwybrau troed a nifer y delweddau pwynt sefydlog ar hyd y llwybrau (gweler ffigur 2 am fanylion lleoliadau arolwg penodol).


Amodau'r tywydd: roedd yn gymylog (gorchudd cwmwl 100%), yn dawel iawn (0mya) ac yn weddol gynnes (15°C) ar gychwyn yr arolwg ar Y Carneddau, gan glirio i orchudd cwmwl 30%, awel ysgafn ar y copaon (10 -15mya o'r gorllewin) ac yn gynhesach (18°C) erbyn diwedd yr arolwg.



Ffigur 1. Map o ardal arolwg y Carneddau yn dangos llwybr y trawslun (llinell felen); y pwyntiau **oren** yw pwyntiau dechrau a diwedd yr arolwg, y **sêr coch** yw copaon rhai o'r prif fynyddoedd a gafodd sylw yn ystod yr arolwg.

2. Canlyniadau

Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r gwahanol arolygon isod. Mae Ffigur 2 isod yn rhoi trosolwg o leoliadau lle gwelwyd y pethau mwy nodedig, y pwyntiau arolyg allweddol a lleoliadau delweddau pwynt sefydlog. Cyfeirir at y pwyntiau wedi'u rhifo ar y mapiau yn nhestun y canlyniadau gan ddefnyddio cromfachau ac yna'r cod wedi'i rifo, er enghraifft '(P3)'.



Ffigur 2. Map o ardal arolyg y Carneddau yn dangos llwybr trawslun 2021 (llinell felen). Y pwyntiau **oren** yw pwyntiau dechrau a gorffen yr arolyg, mae'r pwyntiau **coch** yn nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau isod, mae'r pwyntiau **glas** yn safleoedd ffotograffiaeth pwynt sefydlog wedi'u targedu'n bennaf ar hyd llwybrau (gweler yr adran isod) ac mae'r **sêr coch** yn nodi prif gopaon y mynyddoedd ar hyd y trawslun.



2.1 Bywyd adar

Cofnodwyd cyfanswm o 25 o rywogaethau adar o 410 o unigolion ar draws y llwybrau trawslun yn ystod yr arolwg (gweler tabl 1 isod). Y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd oedd Corhedydd y Waun (125), Ehedydd (35), Tinwen (28) a'r Dryw Bach (17). Gwelwyd digonedd o frain a gwylanod yn ystod yr arolwg, a oedd yn cynnwys 72 Brân Dyddyn, 60 Ydfran a 36 Gwylan y Penwaig, er na nodwyd bod y rhywogaethau hyn yn bridio yn ardal yr arolwg; roeddent yn gymysgedd o adar yn hedfan drosodd neu'n ymweld ag ochrau'r mynyddoedd i fwydo ar y morgrug hedfan oedd yn ymddangos. Ymhlith y rhywogaethau mwy nodedig a welwyd yn ystod yr arolwg, roedd un Trochwr (pwynt 1 ar y map yn ffigur 2), pâr o Frain Coesgoch ger copa Carnedd Llewelyn (pwynt 3) ac un Barcud Coch yn hedfan uwchben.

Gwelwyd cyfanswm o naw rhywogaeth yn ystod arolwg 2021 na chawsant eu cofnodi yn 2020, sef y Llinos Bengoch Leiaf, Cudyll Coch, Brân Goesgoch, Gïach, Robin, Pila Gwyrdd, Colomen Goed, Gwylan Gefnddu Fawr a Gwylan Gefnddu Leiaf. I'r gwrthwyneb, gwelwyd saith rhywogaeth yn 2020 na chawsant eu cofnodi yn 2021, gan gynnwys y Gog, Llinos, y Fronfraith, Bras y Gors, Mwyalchen y Mynydd, Gwennol Ddu a'r Titw Mawr.

Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau amlwg i ganlyniadau arolygon 2020 mewn perthynas ag effeithiau aflonyddwch dynol yn yr ardal. Ni welwyd adar hirgoes yr ucheldir fel Pibydd y Mawn na'r Dutan yn ystod yr arolwg o amgylch llwyfandir y copa, ac nid oedd unrhyw arwydd o'r rhywogaethau hyn yn ystod gwanwyn tawelach 2020 ar ôl y cyfnod clo.

Tabl 1. Canlyniadau arolwg adar bridio Y Carneddau.

Enw'r Safle		Carneddau				
Math o arolwg		Adar yn Bridio				
Arolygwyr		Ben Porter				
Dyddiadau'r arolygon		13/06/2021				
Rhywogaeth	Enw gwyddonol	Trawslun neu safle				Tystiolaeth o fridio yn ystod ymweliadau
		Afon Llafar i Yr Elen	Llwyfan dir y copa	Afon Caseg	Cyfanswm	
Corhedydd y Waun	<i>Anthus pratensis</i>	28	28	69	125	Gwrywod yn canu, oedolion yn galw rhybudd
Dryw bach	<i>Troglodytes troglodytes</i>	11	1	5	17	Gwrywod yn canu
Ydfran	<i>Corvus frugilegus</i>			60	60	
Brân Dyddyn	<i>Corvus corone</i>	13	14	45	72	
Siglen Lwyd	<i>Motacilla cinerea</i>	3		4	7	Gwryw yn canu
Tinwen y Gogledd	<i>Oenanthe Oenanthe</i>	1	2	25	28	Gwrywod yn canu, oedolion yn galw rhybudd, adar ifanc wedi'u magu
Clochdar y Cerrig	<i>Saxicola torquata</i>		2	2	4	Gwryw yn canu


Ehedydd	<i>Alauda arvensis</i>	11	15	9	35	Gwrywod yn canu
Cigfran	<i>Corus corax</i>		1		1	
Siglen fraith	<i>Motacilla alba yarrellii</i>			1	1	
Gwylan y penwaig	<i>Larus argentatus</i>	10	8	18	36	
Brân Goesgoch	<i>Pyrrhocorax pyrrhocorax</i>		2		2	
Llinos Bengoch Leiaf	<i>Carduelis cabaret</i>	1			1	
Gwylan Gefnddu Leiaf	<i>Larus fuscus</i>			2	2	
Cudyll Coch	<i>Falco tinnunculus</i>			1	1	
Trochwr	<i>Cinclus cinclus</i>	1			1	
Titw Tomos Las	<i>Cyanistes caeruleus</i>	5			5	
Asgell Arian	<i>Fringilla coelebs</i>	1			1	Gwryw yn canu
Giach	<i>Gallinago gallinago</i>	1			1	Galwad aderyn mewn cynefin bridio addas
Llwyd y Gwrych	<i>Prunella modularis</i>	1		1	2	
Gwylan Gefnddu Fawr	<i>Larus marinus</i>			2	2	
Robin	<i>Erithacus rubecula</i>	3			3	
Barcud	<i>Milvus milvus</i>		1		1	
Pila Gwyrdd	<i>Carduelis spinus</i>		1		1	
Colomen Goed	<i>Columba palumbus</i>	1			1	
Cyfanswm y rhywogaethau		15	11	14	25	
Cyfanswm yr adar		91	75	244	410	



O gymharu helaethrwydd ac amrywiaeth bywyd adar rhwng 2020 a 2021 yn ardal yr arolwg, mae'r gwahaniaethau'n llawer llai amlwg na'r hyn a nodwyd yn y tri safle ucheldir eraill yn 2021 (gweler ffigurau 3 a 4 isod). Y Carneddau yw'r unig safle lle roedd bywyd adar yn uwch yn 2021 na 2020: cofnodwyd 410 o adar unigol yn gyffredinol o gymharu â 310 yn 2020. Yn yr un modd, roedd amrywiaeth y rhywogaethau adar hefyd yn uwch yn 2021 na 2020: 25 rhywogaeth a 22 rhywogaeth, yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r nifer uwch yn 2021 i'w briodoli'n bennaf i nifer fawr o wylanod a brain mewn rhannau o'r llwybrau trawslun, a oedd yn cynnwys 72 Brân Dyddyn, 60 Ydfran a 36 Gwylan y Penwaig yn bwydo ar forgrug hedfan. Esbonnir y gwahaniaeth yn rhannol hefyd gan storm daranau ddwys a symudodd i'r rhanbarth hanner ffordd trwy'r arolwg yn 2020, ac a leihaodd weithgaredd bywyd adar a phryfed a nodwyd ar gyfer gweddill yr arolwg hwnnw. O ystyried y ddwy agwedd, mae'r gwir ffigurau adar bridio ar gyfer 2021 yn gymharol, ac mewn gwirionedd ychydig yn is na'r hyn a gofnodwyd yn 2020. Er enghraifft, 131 Corhedydd y Waun, 54 Tinwen a 40 Ehedydd yn 2020, o gymharu â 125 Corhedydd y Waun, 28 Tinwen a 35 Ehedydd yn 2021. Mae'r gwahaniaethau a'r newidynnau dryslyd hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd arolygon lluosog a setiau data tymor hwy i allu seilio cymariaethau arnynt.



Ffigur 3. Helaethrwydd yr adar (h.y. nifer yr adar unigol a gofnodwyd) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau) a 2021 (llwyd tywyllach).



Ffigur 4. Amrywiaeth adar (h.y. Cyfanswm y rhywogaethau) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau) a 2021 (llwyd tywyllach).

2.2 Llystyfiant

Ychydig o dystiolaeth oedd o newidiadau sylweddol i'r cymunedau llystyfiant ar hyd y llwybrau yn ystod y trawslun hwn o gymharu â 2020. Fodd bynnag, roedd y llwybrau yn gyffredinol yn fwy treuliedig ac â llai o llystyfiant nag a nodwyd yn 2020 - mae'r agwedd hon yn llai amlwg nag mewn safleoedd eraill ledled Eryri oherwydd y ffaith bod y rhan fwyaf o lwybrau ar hyd y Carneddau yn tueddu i fod ychydig yn fwy 'gwasgareddig' eu natur, ac yn canolbwyntio llai ar lwybrau penodol.

Nodwyd yr Helygen Glustiog (*Salix repens*) unwaith eto ymhlith y tir creigiog i'r gogledd-orllewin o gopa Carnedd Llewelyn, ac yn helaeth o amgylch copa Foel Grach. Nodwyd rhedyn y chwarel (*Cryptogramma crispa*) a thormaen serenog (*Saxifraga stellaris*) yn helaeth ar hyd rhai rhannau o'r trawslun (megis ar yr esgyniad i'r Elen o Foel Ganol), lle gwelwyd y rhywogaethau hyn hefyd yn 2020. Holwyd yn 2020 p'un a fyddai'r rhywogaethau hyn wedi bod yn bresennol yn y lleoedd dan sylw pe byddai lefelau uwch o ddefnydd llwybrau - mae'n ymddangos bod y wybodaeth a gasglwyd o 2021 yn dangos eu bod yn dal i fodoli mewn niferoedd da ar hyd y llwybrau hyn, ac nad yw defnydd o'r llwybrau yn effeithio'n fawr arnynt.

2.3 Sbwriel

Ychydig iawn o dystiolaeth oedd o sbwriel a gwastraff ar hyd y trawslun, gyda dim ond tair eitem wedi'u cofnodi i gyd (gweler tabl 2 isod). Roedd dwy o'r eitemau hyn yn groen banana wedi'u daflu: er y gallai llawer o gerddwyr a defnyddwyr mynydd ystyried bod y rhain yn dderbyniol i'w taflu o ystyried eu bod yn eitemau organig, mewn gwirionedd gall croen banana gymryd hyd at ddwy flynedd i chwalu yn yr amgylchedd, ac felly mae taflu sbwriel o'r fath yn aml yn arwain at Gronni ar draws ardaloedd a llwybrau poblogaidd, fel yn Eryri.

Tabl 2. Canlyniadau arolwg sbwriel i drawslun Y Carneddau.

Enw'r Safle	Y Carneddau
Math o arolwg	Arolwg sbwriel
Arolygwyr	Ben Porter

Dyddiad(au) yr Arolwg	13/06/2021
Math o sbwriel	Maint
Deunydd lapio plastig	1
Croen banana	2
Cyfanswm mathau o sbwriel	2
Cyfanswm eitemau o sbwriel	3

2.4 Pethau eraill a welwyd a nodiadau o'r arolygon

Pryfed: yn arbennig o nodedig oedd presenoldeb 150-200 o wyfynod bychan Northern grass-veneer (*Catoptria furcatellus*) ar hyd y llwybr yn esgyn i'r Elen o Foel Ganol (pwynt 2 ar y map yn ffigur 2) ac ar hyd y grib rhwng Yr Elen i Garnedd Llewelyn. Gwyfyn micro mynyddig prin yw hwn gyda dosbarthiad cyfyngedig yn y DU.

Ymhlith y rhywogaethau eraill a welwyd roedd 65 gweirlöyn bach y waun (*Coenonympha pamphilus*), glöyn byw gwyn gwythien werdd (*Pieris napi*), Cacynen y Llus (*Bombus monticola*) a digonedd o'r rhywogaethau gwyfynod bach *Crambus lathoniellus* a *Bactra lancealana* yn y glaswelltir corsiog o amgylch Afon Caseg ac Afon Llafar.

Gweithgaredd gwersylla: nodwyd tair pabell yn ystod ymweliad yr arolwg â'r ardal hon, o amgylch y llyn bach o dan Yr Elen a Charnedd Llewelyn yn SH 67955 65040.

Defnydd beiciau mynydd: cofnodwyd un beic mynydd trydan ar linell y grib, yn teithio ar hyd y grib rhwng Carnedd Gwenllian a Charnedd Llewelyn ar hyd y prif lwybr.

2.5 Lefelau pori

Er na chawsant eu monitro'n benodol yn ystod yr arolygon, mae cyflwr cynefinoedd ar hyd y llwybrau trawslun yn chwarae rhan sylweddol mewn ffurfio helaethrwydd ac amrywiaeth bywyd planhigion, bywyd pryfed a bywyd adar sy'n bodoli yn yr ardaloedd hyn. Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o ardaloedd ar hyd y llwybr trawslun ar Y Carneddau yn cefnogi dwysedd pori llawer uwch na'r safleoedd mynyddig eraill a gafodd sylw yn ystod arolygon 2021; defaid yn bennaf, ond hefyd o 30-50 o ferlod y Carneddau rhwng Foel Grach a Charnedd Gwenllian. Roedd y cynefin ar hyd y llwybr trawslun yn parhau i fod yn laswelltir wedi hanner ei wella i raddau helaeth, gyda rhai planhigion blodeuol a gweiriau blodeuol yn y cymoedd o amgylch Afon Caseg ac Afon Llafar. Roedd y llwyfandir copa mwy agored yn cefnogi rhai cymunedau mwsogl o *Racomitrium lagunosum* ymhlith y graig doredig, gyda glaswelltir pori byrrach fel arall yn dominyddu cynefin yr ardal ucheldirol hon.



Defaid a chynefin yr ucheldir ar hyd y llwyfandir ger copa Carnedd Llewelyn.

2.6 Delweddau llwybr pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr y llystyfiant


Ar gyfer adroddiad eleni, dangosir delweddau o 2020 (colofn chwith) ochr yn ochr â rhai o 2021 (colofn dde) yn yr un lleoliadau i ganiatáu cymhariaeth.





Lleoliadau'r delweddau: **rhes uchaf** yn edrych tuag at gopa Carnedd Llewelyn ar Iwyfandir y copa (**P1**); **rhes ganol** ar y ffordd tuag at Foel Grach (**P2**) a'r ddelwedd waelod rhwng Foel Grach a Charnedd Llewelyn (**P3**), safle pwynt sefydlog newydd a ychwanegwyd yn ystod arolygon 2021, lle nad oes delwedd gymharol â 2020.

2.7 Deleddau o'r arolwg



Yr Wyddfa o Garnedd Llewelyn



Northern Grass-veener (*Catoptria furcatellus*)



Tinwen y Gogledd gwrywaidd (*Oenanthe oenanthe*)